
(Mwrog Bach, neu Ap Mwrog, oedd Joseph Edward Roberts, prisiwr ac arwerthwr i'r Dirprwywyr Eglwysig)

Yn y gogledd-ddwyrain y lleolir y mannau a enwyd, wrth gwrs, ond yr oedd terfysgoedd Rhyfel y Degwm yn hynod o gadarn yn y de-orllewin ac yn ei hunangofiant *O Gopa Bryn Nebo* edrydd Nantlais, a aned ac a faged yng Ngwyddgrug, ger Pencader, amdano'n cofio mintai o orymdeithwyr ar ei ffordd drwy'r pentref o Wernogle i arwerthiant degymol ym Mhencader yn Awst, 1888 ac yn canu wrth fynd heibio. Ni ddywedodd beth a ganed ond yr oedd *Y Faner* yn cael ei darllen yn y fro a hawdd fyddai credu mai un o ganeuon y papur a oedd yn cael ei chanu. Ar y llaw arall fe geir yng nghyfrol Elwyn L. Jones, y cyfeiriwyd ati eisoes, sôn am fersiwn y de o Gân y Degwm yn cynnwys 13 o benillion ar fesur adnabyddus 'Cân y Mochyn Du'.

Bid a fo am hynny, os oes angen tystiolaeth am boblogeiddrwydd Caneuon y Degwm yn y de, a oes angen edrych ymhellach na'r llythyr a anfonwyd at rifyn 22 Rhagfyr 1887 o'r *Times* gan D. R. Thomas, Llandeilo o dan y pennawd 'Welsh Tithe Ballads', llythyr sy'n nodweddiadol o'r math o Gymro sydd ar ei orau yn ceisio dangos i'r Saeson mor anwaraidd yw ei gydwladwyr. Yn y llythyr hwnnw fe ddywed mai yn ystod y 'deng niwrnod diwethaf' y cyhoeddwyd casgliad 'Caneuon y Degwm'. Adroddwyd eisoes bod y caneuon wedi cael eu cyhoeddi ym mis Mai, rai misoedd ynghynt. Tybed a welodd D. R. Thomas ailargraffiad?

Megis fel ôl-nodiad i'r uchod digwyddais sôn wrth Dr. Huw Walters am fy niddordeb yn y caneuon a dangosodd imi lyfryn yn ei feddiant yn cynnwys 17 allan o 18 o gerddi a anfonwyd i gystadleuaeth yn Eisteddfod y Groglith, Mostyn, Sir y Fflint, 1891, yn galw am ganeuon ar y testun 'Y Ddaear i'r Bobl' neu 'I Lawr â Landlordiaeth', addas i'w canu yng nghyfarfodydd Pwnc y Tir. Rhoddwyd rhyddid i'r prydyddion ddewis eu halawon eu hunain: 'Mochyn Du' oedd dewis naw ohonynt, a 'Gwnewch Bopeth yn Gymraeg' oedd dewis saith. Dewis un oedd 'Mi gollais y trên'.

Wrth gofio'r berthynas agos rhwng Thomas Gee ac E. Pan Jones y mae'n ymddangos yn debygol fod y naill gystadleuaeth wedi ysbrydoli'r llall ond tybed a all rhywun ymhlith darllenwyr *Y Casglwr* gyfeirio at gasgliad arall o ganeuon protest o'r ganrif ddiwethaf?


Y DDAEAR I'R BOBL.

CERDDI Y CROESGAD,

CYNWYS I'W CANU YN

*NGHYFARFODYDD Y VAN,*

GAN WAHANOL AWDWYR.

Cynygiwyd gwobr gan Mr. E. J. WILLIAMS, Patagonia, am y gân ore ar gyfer Eisteddfod y Groglith, Mostyn, ar "Y DDAEAR I'R BOBL," neu "I LAWR A LANDLORDIAETH." Daeth 18 i law, a barnodd DERWENOG yn ore eiddo "GWILYM TURKAN," sef MR. W. G. JONES, Glanaman, gwr ieuanc yn parotoi ar gyfer y Coleg. Mae y lleill mor dda fel y penderfynasom eu cyhoeddi i gyd; Hen Lowr yn unig wrthododd ond cawsom y "Weddi am lwydd y Van" yn ei lle.

I'w cael yn ôl 10s. y cant neu 2c. yr un am arian parod, gan

P A N,

*VAN CRUSADE OFFICE,*

*MOSTYN, NORTH WALES.*

BANGOR
Argraffwyd gan Samuel Hughes, 8, York Place.

# ADOLYGIAD

**D. Ben Rees: CYMRY LERPWL A'R CYFFINIAU.**

**Cyhoeddiadau Modern Cymreig, 1997. 96 tud., £12.50.**

Dyma gyfrol sy'n dilyn hynt a helynt Cymry a fu â chysylltiad ac â llaw yn llunio dinas Lerpwl. Yn ôl yr awdur:

*'Meddyliais y gallwn roi'r cyfan ar gof a chadw o fewn cloriau un gyfrol, ond erbyn hyn sylweddolaf nad oes modd gwneud hynny. Felly y gyfrol gyntaf yw hon.'*

Cychwyn y gyfrol drwy drafod hanes cynnar y dref a chysylltiadau gogledd Cymru â hi. Cyfeirir at y Cymry a fu'n chwarae rhan yn hyn, megis John Hughes a fu'n faer y fwrdeistref ym 1727; Owen Pritchard ym 1744 a nifer eraill a fu'n dal yr un swydd yn ystod y ganrif ddiwethaf, hyd at D. J. Williams ym 1962. Daeth Goronwy Owen (1723-1769) yn gurad Eglwys Santes Fair, Walton yn Ebrill 1753. Symudodd oddi yno ymhen dwy flynedd ac ymfudo i Unol Dalethiau'r America.

Tyrrai'r Cymry yma yn eu cannoedd:

*'Yr oedd Lerpwl yn atyniad i'r Cymry ac yn cynnig gwell amodau byw i'r mwyafrif nag a geid yng nghefn gwlad Gwynedd a Chlwyd. Cartrefai'r Cymry o amgylch y capeli o bob enwad a adeiladwyd yn y ddinas, yn debyg iawn i arferiad yr Iddewon o fyw mor agos i'r synagog fel y medrent gerdded yno.'*

Ymhen hir a hwyr codwyd ysgoldai ychydig ymhellach o'r fam-eglwys er mwyn sefydlu Ysgol Sul. Erbyn 1851 deuai 63 y cant o Gymry Lerpwl o siroedd Môn, Caernarfon, Dinbych a Meirionnydd.

Nid pobl o'r un haen o gymdeithas oedd y Cymry a gododd y ddinas ar ei thraed. Ceir rhai yn adeiladwyr, megis Owen Elias (1806-80), David Roberts (1806-80) a agorodd iard goed ac a oedd yn un o dri chant o adeiladwyr, crefftwyr, seiri coed a seiri maen Cymreig. Daeth mab David Roberts, sef John Roberts, yn aelod seneddol ac yn awdur Deddf Cau Tafarnau ar y Sul. Yn fuan, yn sgil yr adeiladu mawr, llewyrchodd cwmnïau gwerthu tai Cymreig a chwmnïau o gyfreithwyr Cymraeg i baratoi'r cytundebau. Nid arhosodd y Cymry yn eu hunfan a daeth to o lawfeddygon, meddygon a meddygon esgyrn i flodeuo ac i wasanaethu'r ddinas, megis y meddyg esgyrn Hugh Owen Thomas (1834-91), a'i dad Evan Thomas a ymsefydlodd yn y ddinas o Fôn; y llawfeddyg J. Howell Hughes, Yr Athro Herbert Williams, a'r llawfeddyg esgyrn Gronwy Thomas, a'r meddyg Emyr Wyn Jones i enwi ond ychydig.

Ceir yn y gyfrol hanes mudiadau Cymraeg fel yr Urdd, cysylltiadau llenyddol, y wasg, hanes datblygiad yr enwadau a'r gweinidogion tanllyd, megis y Parch. William Rees *(Gwilym Hiraethog)*; Owen Thomas (taid Saunders Lewis ac awdur *Cofiant John Jones, Tal-y-sarn*); John Owen Williams *(Pedrog)* a oedd yn Brifardd, Archdderwydd ac englynwr. Dyma ei englyn 'Y Rhosyn a'r Grug':

I'r teg ros rhoir tŷ grisial — i fagu
Pendefigaeth feddal;
I'r grug dewr y graig a dâl —
Noeth weriniaeth yn anial.

Cyfeirir at y llenorion lu, fel y Parch. Athro Harri Williams, Iorwerth Jones, O. E. Roberts, a'r Parch. D. Emrys James *(Dewi Emrys)* a enillodd y Gadair yn Eisteddfod Genedlaethol Lerpwl ym 1929.

Trafoda'r gyfrol lu o enwogion a fu mewn cysylltiad â'r ddinas ac mae hanner olaf y gyfrol yn ymwneud â chasgliad John Thomas, y ffotograffydd Cymreig, a dynnodd luniau Cymry Lerpwl ynghyd â'r adeiladau.

Un brycheuyn y deuthum ar ei draws oedd na cheid lluniau unigolion a drafodir ar yr un dudalen. Er enghraifft, bu'n rhaid aros tan y dudalen ar ôl llun John Thomas (t.25) cyn dod ar draws unrhyw sôn amdano; a chafwyd cyfeiriad at y Parch. Ddr. J. G. Moelwyn Hughes a'r Parch. R. Maurice Williams, y Dr. D. Tecwyn Evans, dudalen cyn y lluniau. Fe hoffwn yn fawr fod wedi cael mynegai yng nghefn y gyfrol.

Er hyn i gyd, mwynheais y gyfrol yn fawr iawn ac yn sicr bydd yn un werthfawr ar unrhyw silff lyfrau.

MEL WILLIAMS


## YN EISIAU

***Elfenau Rhifyddiaeth (Rhan 1)*** gan John William Thomas (1831)

*******

***Tafleni Rhifyddol Cymraeg*** gan W. W. P. Williams, Ystalyfera (1904)

Cysyllter â:
**(01678) 540 652**